Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru / For learners, for Wales

# Ieithoedd Rhyngwladol yn y Sector Uwchradd
# Pecyn Cymorth Hunanwerthuso

Ar gyfer pob maes ffocws, dewiswch y gwerthusiad, o blith y rhestr isod, sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o ieithoedd rhyngwladol yn eich ysgol. Nodwch unrhyw gryfderau allweddol a meysydd i'w gwella i ddangos tystiolaeth o'ch gwerthusiad. Wedyn, ystyriwch gamau gweithredu a fyddai'n eich cynorthwyo i symud ymlaen. Gallwch ddefnyddio'r camau gweithredu posibl yn y pecyn cymorth i helpu cefnogi eich cynllunio gwelliant.

| Gwerthusiad | Disgrifiwr |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | Megis dechrau datblygu ydym ni. Mae arfer yn anghyson neu'n gyfyngedig, ac nid oes llawer o gynllunio strategol neu effaith eto. |
| **Yn datblygu** | Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ac mae gennym ychydig o arferion effeithiol ar waith, ond nid ydynt wedi cael eu hymgorffori eto neu'n gyson. |
| **Cryf** | Rydym wedi gwneud cynnydd cryf ac mae'r ddarpariaeth yn hynod effeithiol, gyda systemau clir, monitro rheolaidd, ac effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. |

### Arweinyddiaeth Strategol

- I ba raddau y mae dysgu ieithoedd rhyngwladol yn flaenoriaeth strategol yn ein cynllun gwella ysgol a gweledigaeth y cwricwlwm?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Adolygu blaenoriaethau gwella ysgol gyfan*
- *Egluro rolau / cyfrifoldebau arweinwyr mewn ieithoedd rhyngwladol*
- *Ymgorffori ieithoedd rhyngwladol mewn cynllunio a gweledigaeth ILCh ehangach*

### Amser Cwricwlwm a Mynediad

- A ydym ni'n dyrannu amser cwricwlwm digonol i ieithoedd rhyngwladol yng nghyfnod allweddol 3 ac yn sicrhau mynediad teg yng nghyfnodau allweddol 4 a 5?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Archwilio a gwerthuso dyraniad y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3*
- *Adolygu'r broses opsiynau*
- *Archwilio ffyrdd o amddiffyn darpariaeth grŵp bach, lle bo'n hyfyw*

**Cyfranogi a Chadw**

- Pa mor dda ydym ni'n monitro, yn dadansoddi ac yn ymateb i dueddiadau o ran y nifer sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Dadansoddi tueddiadau cyfranogiad disgyblion*
- *Defnyddio llais y disgybl i nodi rhwystrau rhag cyfranogiad*
- *Cryfhau strategaethau hyrwyddo i annog cyfranogiad*

**Addysgu a Dysgu**

- A yw ein dulliau addysgu mewn ieithoedd rhyngwladol yn ddifyr, yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar ruglder ac annibyniaeth disgyblion?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Adolygu ein canfyddiadau o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu*
- *Mireinio dulliau addysgu i flaenoriaethu defnydd digymell ac annibynnol o'r iaith darged*

**Asesu a Dilyniant**

- Pa mor effeithiol yw ein dulliau asesu o ran cefnogi dilyniant wrth i ddisgyblion ddysgu ieithoedd ar draws pob cyfnod allweddol?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Adolygu ein canfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd*
- *Sicrhau bod cynllunio yn amlinellu'n glir yr hyn rydym ni am i ddisgyblion ei wybod*
- *Nodi a rhannu arfer effeithiol mewn asesu ar gyfer dysgu*

**Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol**

- Pa mor effeithiol ydym ni'n dathlu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol, a pha mor gynhwysol yw ein darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd â gwahanol ieithoedd cartref?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Cynllunio digwyddiadau / gwasanaethau ysgol gyfan yn dathlu gwahanol ieithoedd, a chynnwys rhieni a gofalwyr, lle bo modd*
- *Cynnwys ieithoedd cartref mewn arddangosfeydd ac arferion ystafell ddosbarth*

**Dulliau addysgu**

- A ydym ni'n defnyddio ystod o strategaethau effeithiol a difyr i ddatblygu llafaredd a hyder disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg ieithoedd effeithiol*
- *Hyrwyddo a rhannu arfer effeithiol, fel gemau, caneuon, drilio a thechnegau creu brawddegau*

### Asesu a Monitro

- Sut ydym ni'n asesu cynnydd disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol, a sut caiff hyn ei ddefnyddio i lywio addysgu ac adrodd ar gynnydd disgyblion?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Datblygu ymagwedd gyffredin at gofnodi cynnydd disgyblion*
- *Cynnwys dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn adolygiadau cynnydd*
- *Dathlu cynnydd a rhannu cynnydd yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr*

### Arweinyddiaeth Disgyblion

- Sut caiff disgyblion eu cynnwys mewn arwain a dathlu ieithoedd rhyngwladol ar draws yr ysgol?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Sefydlu cynllun llysgenhadon ieithoedd rhyngwladol*
- *Defnyddio llais y disgybl i lywio cynllunio*
- *Annog gweithgareddau allgyrsiol a gwasanaethau wedi'u harwain gan ddisgyblion*

### Partneriaethau a Phontio

- Pa bartneriaethau sy'n bodoli gydag ysgolion cynradd lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi datblygu'r cwricwlwm a phontio?

| | |
|---|---|
| **Yn dod i'r amlwg** | |
| **Yn datblygu** | |
| **Cryf** | |

Camau gweithredu posibl:
- *Cryfhau cydweithio ag ysgolion cynradd lleol*
- *Adolygu ein cwricwlwm cyfnod allweddol 3 i adlewyrchu dysgu yn y sector cynradd*
- *Gweithio gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion i gefnogi dull clwstwr*

### Y Camau Nesaf

- 